

Eich siwrnai gyda ni
- beth ellir ei ddisgwyl



Mae'r pum Tîm Cymorth i Deuluoedd lleol yng Nghonwy yma i gynnig y gefnogaeth gywir i chi a'ch teulu ar yr amser cywir

Dechrau eich siwrnai

Eich **dewis** chi yw gweithio gyda ni:

- Byddwn yn gyfeillgar, onest, parchus a phroffesiynol
- Byddwn yn gweithio gyda chi i ddeall beth sy'n bwysig i chi a'ch teulu
- Byddwn mewn cysylltiad o fewn wythnos i chi gysylltu â ni, neu gael eich manylion.

Tra ein bod yn gweithio gyda'n gilydd

Mae eich **llais** yn bwysig i ni – byddwn yn gwrando arnoch ac yn edrych gyda'n gilydd ar y gwahanol feysydd o'ch bywyd teuluol:

- Byddwn yn cydweithio ar gynllun o beth i wneud nesaf:
 - Canfod cryfderau ac adeiladu arnynt
 - Darparu'r adnoddau i'ch cefnogi chi a'ch teulu i wneud dewisiadau da
 - Byddwn yn gwneud be rydym wedi dweud ein bod am ei wneud
 - Byddwn yn eich helpu i gyrraedd eich nodau
- Byddwn yn gweithio gydag eraill i ddod o hyd i'r gefnogaeth briodol i chi.

Symud ymlaen

Pan fyddwch yn teimlo mewn **rheolaeth**, byddwn yn eich helpu i symud ymlaen yn eich bywyd teuluol:

- Byddwn yn eich annog i fod yn rhan o'n cymuned, ac i helpu eraill
- Rydym dal yma i chi os ydych ein hangen.

Dywedwch wrthym beth yw eich barn – rydym yn croesawu eich adborth a'ch awgrymiadau 😊

 conwy.gov.uk/canolfannauteuluoedd

 canolfannauteuluoedd@conwy.gov.uk

